




**2026**

### Blwyddyn Newydd Dda – 2026!

Dyma ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd. Gobeithio i chi gael cyfle i orffwys dros y Nadolig, yn barod ar gyfer 2026!


Diolch i chi i gyd am eich hyblygrwydd ddechrau'r wythnos wrth inni addasu'r trefniadau dychwelyd i'r ysgol oherwydd yr eira.

### *Happy New Year – 2026!*

*Here's wishing you all a Happy New Year. I hope you all had a chance to rest over Christmas, ready for 2026!*

*Thank you all for your flexibility at the start of the week as we adjusted the return to school arrangements due to the snow.*

---



**05/01/2026**

**-**

**13/02/2026**

### Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Sylwch fod diwrnod yr Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener y 13eg o Chwefror, sef diwrnod olaf yr hanner tymor hwn. Bydd y rhagbrofion yn digwydd ar ddechrau'r wythnos olaf honno.

Urdd : Yn ystod y bythefnos gyntaf mi fyddwn ni'n dewis aelodau ar gyfer y Côr, Cân Actol, grwpiau dawnsio, Grŵp Llefaru, Ymgom ayyb.

Byddaf yn rhannu mwy o wybodaeth maes o law yn egluro'r gwahaniaeth rhwng yr Eisteddfod Ysgol ac Eisteddfod yr Urdd.

### *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

*Note that the day of the School Eisteddfod is on Friday the 13th of February, which is the last day of this half term. The prelims will take place at the beginning of that final week.*

*Urdd : During these first two weeks we will be selecting members for the Choir, Action Song, dance groups, Group recitation, Sketch etc.*

*I will share more information in due course explaining the difference between the School Eisteddfod and the Urdd Eisteddfod.*

---




### Disgo Santes Dwynwen

Bydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn cynnal Disgo Santes Dwynwen yn Neuadd yr Ysgol ar y 23ain o Ionawr, rhwng 2:15 a 4:30 o'r gloch.

Bydd disgo plant y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn digwydd yn ystod oriau ysgol.
Bydd disgo plant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cychwyn am 3:30 ac yn gorffen am 5 o'r gloch.
Does dim angen i rieni fynychu.

Pris mynediad fydd £2 y plentyn a bydd losin a diod ar gael i'w prynu hefyd.

### *Dwynwen's Disco*

*The Parent and Teacher Association are organising a Santes Dwynwen Disco in the School Hall on the 23rd of January, between 2:15 and 4:30 o'clock.*

*The disco for Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 children will take place during school hours.*
*The disco for children in Years 3, 4, 5 and 6 will start at 3:30 and finish at 5:00.*
*Parents do not need to attend.*

*Entry price will be £2 per child and sweets and drinks will be available to buy.*




gweler y poster yn llawn ar waelod y llythyr

*see poster in full at the end of the letter*

## Rhannwch eich barn ar gynlluniau pont troed Plascrug

Bydd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gynnal ar 14 Ionawr i archwilio opsiynau a chynigion ar gyfer Pont Teithio Llesol ym Mhlascrug, Aberystwyth, a gynigir gan Gyngor Sir Ceredigion.

Bydd y digwyddiad yn agored i'r cyhoedd rhwng 10am a 7pm ar y Llawr Gwaelod yn adeilad Swyddfa'r Cyngor Canolfan Rheidol yn Aberystwyth.

Gellir gweld rhagor o fanylion am y cynigion a'r digwyddiad ymgynghori hwn ar wefan y Cyngor: Cynllun Pont Plascrug - Cyngor Sir Ceredigion

## *Share your views on future plans for Plascrug footbridge*

*A public consultation event will take place on 14 January to view options and proposals for a new Active Travel bridge in Plascrug, Aberystwyth, proposed by Ceredigion County Council.*

*The event will be open to the public between 10am and 7pm at the Ground Floor in the Canolfan Rheidol Council Office building in Aberystwyth.*

*Further details of the proposals and this consultation event can be viewed on the Council's website: Plascrug Bridge Scheme - Ceredigion County Council*

## Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd

Mae'r Tîm Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd wedi diweddaru ein cynnig o Gyrsiau a Grwpiau ar gyfer y tymor hwn.

Mae rhestr o'r cyrsiau a'r grwpiau cyfredol isod. Am ragor o wybodaeth gan gynnwys amserlenni, ewch i'n Facebook, Instagram neu Hysbysfwrdd.

- Cefnogi Rhieni a Phlant yn Emosiynol
- Siarad a Phobl Ifanc (Talking Teens)
- Grŵp Rhieni Ifanc
- Tylino Babanod
- Ffrindiau'r Fron - Grŵp Cymorth Bwydo ar y Fron Aberystwyth
- Stori a Sbri

## *Parenting and Family Support*

*The Parenting and Family Support Team have updated our offering of Courses and Groups for this term.*

*There is a list of the current courses and groups below. For further information including timetables, please visit our Facebook, Instagram or Noticeboard.*

- *Supporting Parents and Children Emotionally*
- *Talking Teens*
- *Young Parents Group*
- *Baby Massage*
- *Ffrindiau'r Fron Aberystwyth Breastfeeding Support Group*
- *Stori a Sbri*



## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

🖱 Instagram – Ysgol Gymraeg

🖱 Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

🖱 Instagram – Ysgol Gymraeg

🖱 Instagram – P.T.A

---

**Dyddiadau pwysig nesaf:**

- Diwrnod Eisteddfod Ysgol : Chwefror $13^{eg}$ 2026

***Upcoming important dates:***

- *School Eisteddfod : February $13^{th}$ 2026*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**09/01/2026**
🖱 www.ysgolgymraeg.cymru

